

Arolygiad dilynol lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Cefn Carnau

Ward Derwen a Ward Sylfaen

Dyddiad arolygu: 6 a 7 Mai 2021

Dyddiad cyhoeddi: 23 Awst 2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n hadolygiad â phwyslais	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	8
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	13
4.	Beth nesaf?	14
5.	Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol	16
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	17
	Atodiad B – Cynllun gwella	18

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol o Ysbyty Cefn Carnau ar 6 a 7 Mai 2021.

Cylch gwaith yr arolygiad hwn oedd sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud ar nifer o feysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod arolygiad blaenorol o'r ysbyty rhwng 13 a 15 Ebrill 2021.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr AGIC a dau adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr AGIC.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau dilynol yn Adran 5.

2. Crynodeb o'n hadolygiad â phwyslais

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y darparwr cofrestredig wedi rhoi systemau a gweithdrefnau ar waith i fynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd yn yr Hysbysiad Diffyg Cydymffurfio. Fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi'u hymgorffori mewn ymarfer eto, ac felly nid ydym wedi cael sicrwydd eto bod gwelliannau yn y meysydd hyn wedi cael eu cyflawni'n llawn nac ychwaith y bydd y gwelliannau hynny'n cael eu cynnal.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Cynllun gofal yn dilyn y parthau mesur
- Cynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn
- Cwblhawyd asesiadau cleifion safonol, gan gynnwys anghenion iechyd corfforol.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Trefniadau monitro ar gyfer digwyddiadau
- Mae cynlluniau gofal cleifion yn cynnwys amcanion CAMPUS

Nid ydym wedi ailadrodd unrhyw argymhellion ar gyfer gwella a wnaed yn yr arolygiad blaenorol nad yw'r gwasanaeth wedi mynd i'r afael â nhw'n llawn eto. Fodd bynnag, gwnaethom nodi gwelliannau pellach mewn rhai achosion, ac rydym wedi gwneud argymhellion i fynd i'r afael â'r rhain yn yr adroddiad hwn. Ni nodwyd unrhyw feysydd newydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Cefn Carnau wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaeth anableddau dysgu annibynnol yn ysbyty Cefn Carnau, Carnau Lane, Thornhill, Caerffili, CF83 1LX.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 11 Rhagfyr 2003. Mae'n ysbyty rhyw cymysg â 22 o welyau. Mae'n cynnwys:

- Ward Sylfaen

Gwasanaeth diogel lefel isel yn unig i hyd at 8 (wyth) o oedolion sy'n fenywod dros 18 (deunaw) oed sydd wedi cael prif ddiagnosis o anabledd dysgu ac a all fod yn agored i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

- Ward Bryntirion

Gwasanaeth diogel lefel isel yn unig i hyd at 8 (wyth) o oedolion sy'n ddynion dros 18 (deunaw) oed sydd wedi cael prif ddiagnosis o anabledd dysgu ac a all fod yn agored i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

- Ward Derwen

Gwasanaeth diogel lefel isel yn unig i hyd at 6 (chwech) o oedolion sy'n 18 (deunaw) oed sydd wedi cael prif ddiagnosis o anabledd dysgu ac a all fod yn agored i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Ar adeg yr arolygiad, roedd 18 o gleifion yn yr ysbyty.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Gwelliannau a nodwyd

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob rhan o'r ysbyty yn cael ei glanhau a'i thacluso, a rhaid dangos tystiolaeth o gydymffurfiaeth barhaus â safonau atal a rheoli heintiau.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau prosesau goruchwyllo a monitro cadarn ac ymwithiol mewn cysylltiad â'r archwiliadau Atal a Rheoli Heintiau er mwyn sicrhau eu bod wedi'u cwblhau'n gywir.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Roedd ardaloedd ward wedi cael eu glanhau'n drylwyr gan gontractwr allanol – hwn oedd y cam cyntaf mewn rhaglen barhaus i wella'r amgylchedd gofal. Nid oedd unrhyw arogleuon annymunol yn yr ystafelloedd ymolchi, y cawodydd na'r toiledau ac nid oeddent wedi'u staenio mwyach. Gwelsom fod rhai toiledau a oedd yn fudr/wedi'u baeddu ar ôl eu defnyddio. Fodd bynnag, roedd rhestrau gwirio dyddiol y staff cadw tŷ wedi cynyddu er mwyn sicrhau bod yr ystafelloedd ymolchi yn cael eu harchwilio a'u glanhau yn rheolaidd. Nid oedd unrhyw eitemau wedi'u storio'n amhriodol yn yr ardaloedd hyn.

Roedd pob eitem yr oedd angen ei storio o dan y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn cael ei storio'n briodol mewn cypyrddau COSSH; ni welwyd unrhyw eitemau wedi'u lleoli'n amhriodol mewn ardaloedd eraill o'r ysbyty.

Yn dilyn ein harolygiad blaenorol, roedd y peiriant golchi wedi'i symud i leoliad mwy priodol yn y golchdy. Roedd yr ysbyty wrthi'n rhoi system golchi dillad ddiwygiedig ar waith i fynd i'r afael â'n pryderon o'n harolygiad blaenorol. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom unwaith eto fod bag golchi dillad wedi'i adael yn yr ardal gymunedol ar Ward Sylfaen a bod eitemau o ddillad cleifion wedi'u gadael mewn ardaloedd cymunedol.

Er bod tystiolaeth o raglen dacluso ym mhob rhan o'r ysbyty, roedd ardaloedd ar y wardiau a swyddfeydd nyrsio yn anniben ac yn anhrefnus o hyd. Ar Ward Sylfaen gwelsom fod yr hwfer yn cael ei storio o flaen y cyfarpar dadebru brys, ac felly'n atal rhywun rhag cael gafael arno'n gyflym pe bai angen. Tynnwyd sylw at hyn pan welwyd hyn, a chafodd ei symud ar unwaith gan y staff er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd mynd at y cyfarpar dadebru brys.

Yn syth ar ôl ein harolygiad ym mis Ebrill, mae Rheolwr Gwasanaethau Cymorth o un o safleoedd eraill Elysium wedi bod yn gweithio yng Nghefn Carnau i

adolygu strwythur ac adnoddau'r gwasanaethau cymorth. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod amrywiaeth o strwythurau a phrosesau wedi'u datblygu a bod y gwaith o'u gweithredu ar gam cynnar. Roedd hyn yn cynnwys amserlenni glanhau ac archwiliadau a oedd yn bwydo i mewn i drefniadau llywodraethu diwygiedig yr ysbyty.

Dywedwyd wrthym fod y darparwr yn recriwtio i swydd Rheolwr Gwasanaethau Cymorth Cefn Carnau i gymryd lle ei gydweithiwr ar ôl ei benodi.

Roedd yn amlwg bod rhaglen adnewyddu, cynnal a chadw ac addurno wedi dechrau ers ein harolygiad blaenorol. Nodwyd hefyd fod dodrefn newydd nawr yn lle'r dodrefn a oedd wedi torri a welwyd ym mis Ebrill.

Gwelliant a nodwyd

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig roi sicrwydd bod y rheolwyr yn goruchwyllo'r gofynion staffio ar gyfer cleifion benywaidd ar Ward Sylfaen. Mae'n rhaid i'r rotâu gael eu monitro er mwyn sicrhau bod digon o staff benywaidd ar y ward i ddarparu gofal ag urddas i'r cleifion.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Cynhaliodd y darparwr cofrestredig gyfarfod adolygu rota wythnosol i nodi'r gofynion staffio ar gyfer yr wythnos ganlynol. Mae'r gofynion staffio hefyd yn cael eu hadolygu bob dydd yn ystod cyfarfod y bore, er mwyn sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng y rhywiau ymhlith y staff, yn enwedig ar Ward Sylfaen. Fodd bynnag, wrth adolygu'r ddogfen Cyfarfod Bore a ddarparwyd ar gyfer 5 Mai 2021, nodwyd bod yr adran ar gyfer nifer y staff o'r ddau ryw ar Ward Sylfaen yn anghyflawn.

Roedd dogfennau rota'r staff a welsom ar gyfer Ward Sylfaen ar gyfer y diwrnod hwnnw a'r pythefnos blaenorol, yn nodi mai staff benywaidd oedd ar ddyletswydd yn bennaf a oedd yn well ar gyfer cynnal arsylwadau uwch o gleifion ar y ward honno.

Gwelliant a nodwyd

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gynnal adolygiad llywodraethu cadarn o'r data ar atal yn gorfforol er mwyn sicrhau bod lefel a nifer yr achosion o atal yn gorfforol yn gymesur ac mai dim ond pan fetho popeth arall y caiff y dechneg ei defnyddio. Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig ddangos bod achosion o atal yn gorfforol yn digwydd am yr amser byrraf posibl a bod y staff wedi gwerthuso'n

rheolaidd, yn ystod yr achos o atal yn gorfforol, a allai hyn fod wedi dod i ben yn gynt.

Rhaid i'r wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani ddarparu dadansoddiad cynhwysfawr sy'n dogfennu ac yn nodi'r manylion disgrifiadol a'r cyd-destun adeg yr achosion o atal yn gorfforol a'r anafiadau a gafwyd yn eu sgil.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Roedd y darparwr cofrestredig wedi cynnal dadansoddiad pellach o ddigwyddiadau yn yr ysbyty yn ystod y cyfnod y tynnwyd sylw ato yn ein harolygiad blaenorol. Roedd hyn yn darparu rhagor o fanylion ynghylch nifer y cyfyngiadau a'r anafiadau a gofnodwyd ar system gwybodaeth cofnodi digwyddiadau (IRIS) y darparwr cofrestredig. Roedd copiâu o agenda a chofnodion diweddaraf cyfarfodydd Llywodraethu Clinigol yr Ysbyty yn dangos bod data ar atal wedi'u cofnodi a'u trafod.

Fodd bynnag, mae'r wybodaeth a'r dadansoddiad hwn ond yr un mor ddibynadwy ag ansawdd y wybodaeth a gofnodir ar y system gan staff yr ysbyty. Ers ein harolygiad ym mis Ebrill, nodwyd bod pethau wedi digwydd ond nad oedd y digwyddiadau hynny wedi'u cofnodi ar IRIS, ac felly na fyddent wedi'u cynnwys yng ngwybodaeth cofnodi IRIS sy'n cael ei hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol.

Hefyd, er bod cynllun gwella'r darparwr cofrestredig yn ymateb i'r Hysbysiad Diffyg Cydymffurfiaeth yn nodi y byddai digwyddiadau'n cael eu hadolygu bob dydd yn ystod y cyfarfod boreol, roedd hyn wedi cael ei symud o'r cyfarfod bore i gyfarfod adolygu digwyddiadau penodol. Fodd bynnag, heb yr adolygiad o ddigwyddiadau yn y cyfarfod boreol, roedd y darparwr cofrestredig yn methu â nodi bod y digwyddiad heb gael ei gofnodi ar IRIS.

Felly ni allwn fod yn sicr bod y darparwr cofrestredig wedi sefydlu systemau eto i gofnodi, monitro a chymryd camau a dysgu o ddigwyddiadau yn yr ysbyty.

Roedd cydymffurfiaeth o ran Rheolaeth Therapiwtig gyffredinol o Drais ac Ymddygiad Ymosodol ar gyfer staff rheolaidd a staff banc yn 78%, ac roedd sesiynau wedi'u trefnu yn y dyfodol i gynyddu cydymffurfiaeth.

Gwelliant a nodwyd

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig roi sicrwydd bod systemau a phrosesau cadarnhaol ar waith i ymdrin â materion ac atgyfeiriadau diogelu.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Roedd y darparwr cofrestredig wedi adolygu'r gweithdrefnau Diogelu. Fodd bynnag, oherwydd yr amserlenni caeth rhwng eu hadolygu a'n harolygiad, nid oeddem yn gallu profi'r prosesau hyn i gael sicrwydd.

Gwelliant a nodwyd

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod Cynlluniau Gofal a Thriniaeth ar gael yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Gwnaethom adolygu pedair set o gynlluniau gofal cleifion ar ddwy ward; Ward Sylfaen a Ward Derwen.

Mae gan bob claf gynllun gofal sy'n dilyn y parthau mesur ac roedd ganddo gynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos bod asesiadau safonol wedi'u cwblhau a oedd yn cynnwys anghenion iechyd corfforol.

Roedd y cynlluniau gofal yn nodi bod nodau ac amcanion ar waith. Fodd bynnag, nid oedd y rhain yn canolbwyntio ar yr amcanion CAMPUS bob amser.

Yr hyn sydd angen ei wella ymhellach

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal yn cael eu hysgrifennu gan gynnwys amcanion CAMPUS.

Gwelliant a nodwyd

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod Cynllun Gofal cyffredinol pob claf ar gael i'r staff fel bod staff anghyfarwydd yn gallu darparu gofal diogel i'r cleifion mewn ffordd ddigonol.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Nid oedd unrhyw Gynlluniau Gofal cyffredinol ar waith ar y wardiau ar adeg yr arolygiad. Fodd bynnag, roedd y darparwr cofrestredig wedi dechrau datblygu'r rhain, a elwir yn 'gardiau fflach', gan ddarparu copi ar gyfer cynllun gofal a ddatblygwyd yn fuan ar ôl yr arolygiad hwn. Roedd hyn yn dangos dechrau cadarnhaol wrth fynd i'r afael â'r gwelliant hwn, ac mae angen datblygu hyn yn gyflym er mwyn sicrhau bod y dogfennau allweddol hyn ar waith ar gyfer pob claf.

Gwelliant a nodwyd

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei fod yn darparu gweithlu addas ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth, ac yn rhoi sicrwydd i AGIC fod systemau ar waith i wneud yn siŵr bod gan staff nad ydynt yn gyfarwydd â'r ysbyty wybodaeth dda am y cleifion er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Roedd yn amlwg bod ymdrechion yn mynd rhagddynt i sefydlogi'r gweithlu drwy fwrw ati i recriwtio pobl i swyddi gwag. Yn y cyfamser, roedd staff profiadol o wasanaethau Elysium eraill ar leoliadau tymor byr yn Ysbyty Cefn Carnau i gefnogi'r gwelliannau gofynnol yn yr ysbyty a chyflenwi yn lle staff absennol mewn swyddi y byddai'n rhaid i staff asiantaeth llai cyfarwydd eu llenwi.

Roedd y darparwr cofrestredig wedi datblygu cofnod trosglwyddo ar gyfer pob ward, gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth allweddol i staff y sifft nesaf. Fodd bynnag, nid oedd y rhain wedi'u hymgorffori mewn ymarfer yn yr ysbyty eto, ac felly, ar adeg ein harolygiad, nid oeddem yn gallu dod i'r casgliad a fyddai'r broses hon yn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwelliant a nodwyd

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod system fonitro gadarn ar waith i sicrhau bod arfarniadau staff a sesiynau goruchwyllo'r staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Yn ddiweddar, roedd y darparwr cofrestredig wedi datblygu cronfa ddata i gofnodi sesiynau goruchwyllo ac arfarniadau. Datblygwyd coeden oruchwyllo hefyd i raeadru goruchwylloaeth drwy strwythur staffio'r ysbyty.

Roedd copïau o gofnodion goruchwyllo yn cael eu cynnal a'u cadw'n gyfrinachol yn ffeiliau adnoddau dynol aelodau'r staff.

Roedd y broses o oruchwyllo ond wedi dechrau yn ddiweddar ar adeg yr arolygiad, ac felly nid oeddem yn gallu adolygu'r broses hon i gael sicrwydd ei bod yn cael ei hymgorffori mewn ymarfer.

Gwelliant a nodwyd

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau llywodraethu ac archwilio yn cael eu hymgorffori'n ddigonol drwy'r ysbyty a dangos bod gwybodaeth yn cael ei hasesu, ei monitro a'i dogfennu'n rheolaidd, a sicrhau ansawdd y gwasanaeth a nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel i gleifion.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Mae'r darparwr cofrestredig wedi datblygu trefniadau llywodraethu diwygiedig ar gyfer yr ysbyty ac roedd yn gallu disgrifio'r rhain i'r tîm arolygu. Fodd bynnag, roedd y trefniadau newydd hyn newydd gael eu rhoi ar waith, ac felly nid oeddem yn gallu eu hadolygu er mwyn dod i gasgliad o ran eu heffeithiolrwydd, nac ychwaith er mwyn cadarnhau a oedd y trefniadau newydd wedi'u hymgorffori mewn ymarfer. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y mater hwn y tu allan i'r broses arolygu, a bydd yn rhan allweddol o arolygiad nesaf yr ysbyty.

4. Beth nesaf?

Fel y nodwyd yn yr adran Beth Wnaethon Ni yn yr adroddiad hwn, pwrpas yr arolygiad hwn oedd cael rhywfaint o sicrwydd uniongyrchol bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â meysydd sylweddol o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiad ym mis Ebrill 2021. Roedd llawer o'r materion yn peri risg wirioneddol i ddiogelwch y cleifion ac mae angen i ni gael sicrwydd bod camau effeithiol yn cael eu cymryd.

Nid ydym wedi nodi llawer o argymhellion newydd ar gyfer gwella yn ystod yr arolygiad hwn. Rhestrir unrhyw faterion a nodwyd gennym ac unrhyw faterion a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad yn Atodiad A. Dangosir unrhyw argymhellion newydd sy'n deillio o'r arolygiad hwn yn Atodiad B yn yr adroddiad hwn, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn dweud wrthym am y camau y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gennym.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru.
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Er bod yr adroddiad hwn yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn y materion a nodwyd yn ystod arolygiad Ebrill 2021, mae llawer i'w wneud o hyd cyn y gallwn fod yn sicr bod pob achos o dorri'r rheoliadau wedi'i ddatrys. Felly, mae Ysbyty Cefn Carnau yn parhau i fod yn Wasanaeth sy'n Peri Pryder yn unol

â phrosesau gorfodi AGIC a byddwn yn parhau i fonitro'r gwasanaeth yn agos iawn er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â'r holl welliannau gofynnol.

5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol

Gall arolygiadau dilynol fod yn arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd neu'n rhai dirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Ni chaiff y gwasanaeth unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilynol yw gweld pa welliannau a wnaed gan y gwasanaeth ers ein harolygiad diwethaf.

Bydd ein harolygiadau dilynol yn canolbwyntio ar y meysydd penodol ar gyfer gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae hyn yn golygu y byddwn ond yn canolbwyntio ar y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru sy'n berthnasol i'r meysydd hyn.

Yn ystod ein harolygiadau dilynol byddwn yn ystyried agweddau perthnasol ar y canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Darparu gofal diogel ac effeithiol
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at unrhyw feysydd lle mae angen gwneud gwelliannau o hyd.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Cefn Carnau

Dyddiad arolygu: 6 a 7 Mai 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Ni nodwyd unrhyw welliannau pellach	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010			
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni nodwyd unrhyw welliannau pellach	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad: